O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif 1266 (Cy. 219)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) (Rhif 2) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Medi 2019* |
| *Yn dod i rym* | *18 Medi 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) (Rhif 2) 2019 a daw i rym ar 18 Medi 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 18 Medi 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.**—(1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 9, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin gan erthygl 4 ond, yn unol ag erthygl 9, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**9.** Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Medi 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.3 o gilometrau i'r gorllewin o drosbont Bryn Tŵr hyd at bwynt 700 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban).

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban).

## ATODLEN 2
## Gwrthlif & Gwahardd Cerbydau Llydan (dros 3.2 metr) Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.3 o gilometrau i'r gorllewin o drosbont Bryn Tŵr hyd at bwynt 700 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban).